ALLIED HEALTH PROFESSIONS FEDERATION CYMRU

# NEWSLETTER

ahpf Cymru . Wales

Edition 1 | Spring 2025

## AHPF Cymru Launches

In January 2025, the Allied Health Professions Federation  Cymru (AHPF Cymru) was launched. The AHPF exists across the UK, but it is new to Wales. Policy Officers in Wales have always worked collaboratively across professions but the launch of AHPF Cymru with associated funding and branding allows us to work together more strategically and effectively to benefit our members. AHPF Cymru comprises of 13 professional bodies representing AHPs in Wales. Members are:

- British and Irish Orthoptic Society
- British Association of Dramatherapists
- British Association for Music Therapy
- British Association of Prosthetists and Orthotists
- British Dietetic Association
- British Psychological Society
- Chartered Society of Physiotherapy
- College of Paramedics
- Royal College of Occupational Therapists
- Royal College of Podiatry
- Royal College of Speech and Language Therapists
- Society of Radiographers
- The British Association of Art Therapists

You can find more information on AHPF Cymru here.

Since January, AHPF Cymru has been busy engaging with several stakeholders across Wales. Carry on reading to find out more...!

### Meeting with the Cabinet Secretary for Health and Social Care

Representatives of AHPF Cymru met with the Cabinet Secretary for Health and Social Care, Jeremy Miles MS in late January, to discuss the launch of the new body. AHPF Cymru was represented by our Chair, Dr Caroline Walters of the Royal College of Speech and Language Therapists, our Vice-Chair, Calum Higgins of the Chartered Society of Physiotherapy and member, Greg Hanford of the British Association of Art Therapists. Discussion with the Cabinet Secretary included matters such as workforce planning, apprenticeships and bursaries. We were pleased that the Cabinet Secretary agreed to visit a multi-disciplinary team, working in Deeside.



ALLIED HEALTH PROFESSIONS FEDERATION CYMRU

# NEWSLETTER

ahpf Cymru . Wales

Edition 1 Spring 2025

## Launch of AHPF Cymru manifesto

As we look ahead to the Senedd elections in May 2026, AHPF Cymru launched a manifesto this spring and have started actively engaging with the political parties. Meetings have been organised with the Members of the Senedd working on writing the manifestos for their respective political parties and representatives of AHPF Cymru will be at all party-political conferences this year to spread the word on our key asks. AHPF Cymru has identified five key areas of focus that we believe political parties must prioritise to ensure the future sustainability and effectiveness of AHPs across Wales. The five key areas are:

1. A National Workforce Strategy for AHPs.

2. Timely access to AHP services for those working in health and social care.

3. Expand access to the AHP professions through exploring routes, in consultation with the professions, such as degree apprenticeships.

4. Ensure that services within the community are delivered within suitable buildings.

5. Allow patients the right to access AHP services as part of their treatment pathway.

If you have any questions regarding the contents of the manifesto, please contact Caroline Walters at caroline.walters@rcslt.org

## Senedd Event!

AHPF Cymru officially launched during a Senedd event in the Pierhead building in March. The event was kindly sponsored by the Chair of the Health and Social Care Committee, Russell George MS. In attendance was cross-party representation of Members of the Senedd and the keynote speech was delivered by the Minister for Children and Social Care, Dawn Bowden MS. Most importantly, it was an opportunity for our members to engage in discussions with stakeholders about their strategic priorities.

## More Senedd engagement

AHPF Cymru has also taken the opportunity to engage with the Senedd by submitting written evidence to relevant consultations by two Committees. AHPF Cymru responded to the Economy, Trade and Rural Affairs Committee's Consultation on Apprenticeship Pathways and to the Health and Social Care Committee's consultation on the future of general practice in Wales. We look forward to continued engagement with Senedd committees in the future and hope for the opportunity soon to provide oral evidence.




## And finally, we say Hwyl Fawr to Dai...

The policy world of AHPs in Wales has lost a real stalwart this April, as Dai Davies, the Professional Practice Lead for the Royal College of Occupational Therapists leaves for pastures new. However, Dai is staying in the world of AHPs and will be returning to the front line as the Divisional Head of Occupational Therapists in Aneurin Bevan University Health Board. Thank you, Dai, for your work in flying the flag for occupational therapists and AHPs in Wales and good luck in your new role!

FFEDERASIWN PROFFESIYNAU PERTHYNOL I IECHYD CYMRU

# CYLCHLYTHYR

ahpf Cymru . Wales

Argraffiad 1 | Gwanwyn 2025

## AHPF Cymru yn lansio

Ym mis Ionawr 2025, lansiwyd Ffederasiwn Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru (AHPF Cymru). Mae'r AHPF yn bodoli ledled y DU, ond mae'n newydd i Gymru. Mae Swyddogion Polisi yng Nghymru wastad wedi cydweithio ar draws proffesiynau ond mae lansiad AHPF Cymru gyda chyllid a brandiocysylltiedig yn ein galluogi i weithio gyda'n gilydd yn fwy strategol ac effeithiol er budd ein haelodau. Mae AHPF Cymru yn cynnwys 13 o gyrff proffesiynol sy'n cynrychioli AHPs yng Nghymru. Aelodau yw:

- Cymdeithas Ortoptig Prydain ac Iwerddon
- Cymdeithas Therapyddion Drama Prydain
- Cymdeithas Therapi Cerdd Prydain
- Cymdeithas Prosthetyddion ac Orthotyddion Prydain
- Cymdeithas Deieteg Prydain
- Cymdeithas Seicolegol Prydain
- Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
- Coleg y Parafeddygon
- Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
- Coleg Brenhinol Podiatreg
- Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
- Cymdeithas y Radiograffwyr
- Cymdeithas Therapyddion Celf Prydain

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth a chyflwyniad ar AHPF Cymru yma.

Ers mis Ionawr, mae AHPF Cymru wedi bod yn brysur yn ymgysylltu â nifer o randdeiliaid ledled Cymru. Parhewch i ddarllen i ddarganfod mwy...!

## Cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyfarfu cynrychiolwyr AHPF Cymru ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Jeremy Miles AS, ddiwedd mis Ionawr, i drafod lansio'r corff newydd. Cynrychiolwyd AHPF Cymru gan ein Cadeirydd, Dr Caroline Walters o Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, ein Is-gadeirydd, Calum Higgins o'r Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi a'n aelod, Greg Hanford o Gymdeithas Therapyddion Celf Prydain. Roedd y drafodaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet yn cynnwys materion fel cynllunio'r gweithlu, prentisiaethau a bwrsariaid. Roeddem yn falch bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cytuno i ymweld â thîm amlddisgyblaethol, sy'n gweithio yng Nglannau Dyfrdwy.



FFEDERASIWN PROFFESIYNAU PERTHYNOL I IECHYD CYMRU

# CYLCHLYTHYR

ahpf
Cymru . Wales

Argraffiad 1 Gwanwyn 2025

## Lansio maniffesto AHPF Cymru

Wrth i ni edrych ymlaen at etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026, lansiodd AHPF Cymru maniffesto y gwanwyn hwn ac maent wedi dechrau ymgysylltu'n weithredol â'r pleidiau gwleidyddol. Mae cyfarfodydd wedi cael eu trefnu gydag Aelodau'r Senedd sydd yn gweithio ar ysgrifennu'r maniffesto ar gyfer eu priod bleidiau gwleidyddol a bydd cynrychiolwyr AHPF Cymru ym mhob cynhadledd wleidyddol eleni i ledaenu'r gair am ein prif ofynion. Mae AHPF Cymru wedi nodi pum maes ffocws allweddol yr ydym yn credu bod yn rhaid i bleidiau gwleidyddol flaenoriaethu i sicrhau cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd AHPs ledled Cymru yn y dyfodol. Y pum maes allweddol yw:

1.Strategaeth Genedlaethol y Gweithlu ar gyfer AHPs.

2.Mynediad amserol i wasanaethau AHP i'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

3.Ehangu mynediad i'r proffesiynau AHP trwy archwilio llwybrau, mewn ymgynghoriad â'r proffesiynau, fel prentisiaethau gradd.

4.Sicrhau bod gwasanaethau o fewn y gymuned yn cael eu darparu mewn adeiladau addas.

5.Caniatáu i gleifion gael mynediad at wasanaethau AHP fel rhan o'u llwybr triniaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â chynnwys y maniffesto, cysylltwch â Caroline Walters ar caroline.walters@rcslt.org

## Digwyddiad y Senedd!

Lansiwyd AHPF Cymru yn swyddogol yn ystod digwyddiad y Senedd yn adeilad y Pierhead ym mis Mawrth. Noddwyd y digwyddiad yn garedig gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Russell George AS. Yn bresennol roedd cynrychiolaeth drawsbleidiol o Aelodau'r Senedd a thraddodwyd y brif araith gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, Dawn Bowden AS. Yn bwysicaf oll, roedd yn gyfle i'n haelodau gymryd rhan mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid am eu blaenoriaethau strategol.

## Mwy o ymgysylltiad â'r Senedd

Mae AHPF Cymru hefyd wedi manteisio ar y cyfle i ymgysylltu â'r Senedd drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ymgynghoriadau perthnasol gan ddau Bwyllgor. Ymatebodd AHPF Cymru i Ymgynghoriad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Lwybrau Prentisiaethau ac i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ddyfodol ymarfer cyffredinol yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at barhau i ymgysylltu â phwyllgorau'r Senedd yn y dyfodol ac yn gobeithio am y cyfle cyn bo hir i ddarparu tystiolaeth lafar.




## Ac yn olaf, rydyn ni'n dweud Hwyl Fawr i Dai...

Mae byd polisi AHPs yng Nghymru wedi colli un o'n hoelion wyth go iawn ym mis Ebrill, wrth i Dai Davies, Arweinydd Practis Proffesiynol Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol adael am borfeydd newydd. Fodd bynnag, mae Dai yn aros ym myd AHPs a bydd yn dychwelyd i'r rheng flaen fel Pennaeth Rhanbarthol Therapyddion Galwedigaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Diolch, Dai, am dy waith yn chwifio'r faner i therapyddion galwedigaethol ac AHPs yng Nghymru a phob lwc yn y rôl newydd!